Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***2.00 PM - DYDD MAWRTH, 26 TACHWEDD 2019***

***SIAMBR Y CYNGOR - CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT***

**Rhan 1**

1. Datganiadau o fudd

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 8)*

3. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**Adroddiad/au gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth**

4. Cais Rhif P2019/0021 - Gât Treftadaeth, Coed Llandarcy, Llandarcy, Castell-nedd *(Tudalennau 9 - 36)*
140 o unedau preswyl gydag isadeiledd cysylltiedig (amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl) wrth y Gât Treftadaeth, Coed Llandarcy, Llandarcy, Castell-nedd SA10 6HZ.

5. Cais Rhif. P2019/5335 - Fferm Cilpentan, Heol Llwyncelyn, Tai'r-gwaith *(Tudalennau 37 - 46)*
Dymchwel yr ysgubor ar wahân sy'n bodoli eisoes, ac ailadeiladu estyniad ochr deulawr ar yr annedd i ddarparu rhandy a/neu lety i dwristiaeth yn Fferm Cilpentan, Heol Llwyncelyn, Tai'r-gwaith SA18 1UU.

6. Cais Rhif. P2019/5485 - 2 Cilgant Baldwin, Twyni Crymlin, Castell-nedd Port Talbot *(Tudalennau 47 - 64)*

Newid defnydd o dŷ preswyl (C3) i Dŷ Amlfeddiannaeth (C4) gydag uchafswm o 5 preswylydd yn rhif 2 Cilgant Baldwin, Twyni Crymlyn, Castell-nedd Port Talbot SA1 8QE.

7. Cais Rhif. P2019/5515 - 1 Stryd y Goron, Port Talbot
*(Tudalennau 65 - 80)*
Newid defnydd o 4 fflat (defnydd C3a) i Dŷ Amlfeddiannaeth (defnydd C4) 6 ystafell wely yn Fflatiau A i D, 1 Stryd y Goron, Port Talbot SA13 1BG.

**<u>Adran B - Materion Er Gwybodaeth</u>**

8. Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu'n eithriedig) yn y Cadeirydd yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd) *(Tudalennau 81 - 82)*

9. Penderfyniadau Dirprwyedig - 29 Hydref i 18 Tachwedd, 2019
*(Tudalennau 83 - 94)*

10. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**<u>Prif Weithredwr</u>**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2019**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.Paddison**

**Is-Gadeirydd:** **S.Pursey**

**Aelodau:** Councillors C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams a/ac S.Renkes

**Aelod Cabinet:** Councillor A.Wingrave

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning**.**

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**<u>Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor</u>**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn <u>2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf</u> (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.